

## Prosiectau Teuluoedd yn Gyntaf 2018-19

<b>Enw a Rhif y Prosiect</b>	<b>Asiantaeth gyflenwi</b>	<b>Disgrifiad o'r prosiect</b>
CON 04 Datblygu chwarae	CVSC	Cydlynu cyflwyno Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Chwarae Conwy, rhan o Fesur Plant a Theuluoedd Llywodraeth Cymru i drin tlodi plant. Mentora a chefnogi grwpiau cymunedol, ysgolion ac eraill i ganfod atebion pwrpasol, lleol sy'n diogelu a hyrwyddo chwarae plant i ddarparu'r cyfleoedd a'r amgylchiadau gorau posib i blant chwarae.
CON 06-03 Prosiect cam-drin domestig	Gwasanaeth Cam Drin Domestig Aberconwy	Datblygu adnoddau'r ganolfan wybodaeth 'Siop un Alwad' ymhellach e.e. darparu cyfrifiaduron i drin tlodi/tai/ anghenion yn ymwneud â chyflogaeth. Yn ogystal â pharhau i gynnig cefnogaeth a rhaglenni i helpu teuluoedd i dorri'r cylch o gam-drin.
CON 06-16	Home-start Conwy	Cynllun cymunedol sy'n cynnig cefnogaeth, cyfeillgarwch a chymorth ymarferol i rieni sy'n cael anawsterau.
CON 06-21 Cwnsela perthynas a theulu	Relate Cymru	Darparu cyngori perthynas oedolion a theulu i deuluoedd yng Nghonwy i rai sy'n cael budd-dal / yn ddi-waith, neu gyda phlentyn anabl
CON 06-22 (Choose2Change)	Relate Cymru	Darparu amrywiaeth o raglenni ymyrraeth am ddim i gynnig rhywbeth gwahanol i drais a cham drin (i'w gyflwyno ar y cyd gyda'r gwasanaeth i weithredwyr oedolion a chefnogaeth i'w partneriaid) – pob aelod o'r teulu'n cael ymyrraeth briodol
CON 06-32a Prosiect cam-drin domestig	Cymorth i Ferched Colwyn	Arian ar gyfer gweithiwr gofal plentyn ac unigolyn ifanc i ddarparu cefnogaethi blant gan ddefnyddio sesiynau un i un, chwarae a gweithgareddau.

CON 06-32b Prosiect cam-drin domestig	Cymorth i Ferched Colwyn	Cyflogi eiriolwr cam-drin domestig annibynnol arbenigol i blant a phobl ifanc i ddarparu cefnogaeth i blant sydd wedi gweld neu wedi eu heffeithio gan gam-drin domestig, sydd wedi gadael lloches, sy'n byw gyda cham-drin yn eu teuluoedd neu berthynas ardegau heb fynediad at gefnogaeth.
CON 06-33 Cefnogaeth profedigaeth	Cruse	Datblygu sesiynau grŵp ar rianta a chefnogi plant a phobl ifanc, ynghyd ag ymestyn gwasanaethau One2One presennol i oedolion sydd â chyfrifoldebau teuluol a phlant a phobl ifanc. Bydd hyn hefyd yn cynnwys recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr ychwanegol.
CON 08 Teuluoedd Gwledig yn Gyntaf	Community Wellbeing, CCBC	Ymwneud â theuluoedd sy'n profi tlodi mewn ardaloedd gwledig a chomisiynu gwasanaethau i gyfarfod eu hanghenion.
CON 09 Tîm o Amgylch y Teulu	Community Wellbeing, CCBC	Gwella'r wybodaeth sydd ar gael am wasanaethau, darparu cefnogaeth i deuluoedd gael gwasanaethau a gwella gweithio aml asiantaeth.
CON 12-13 Grŵp Cefnogi Teulu	Crossroads	Cefnogi plant / pobl ifanc gydag anabledd a'u teuluoedd trwy gynnig gweithgareddau a grwpiau, i'r teulu fel cyfanrwydd, ac mewn amgylchedd ar wahân i gyfarfod anghenion unigol aelodau'r teulu
CON 12-23 Parents Protect	Lucy Faithfull Foundation	Addysg rhiant / gofalwr a seminar codi ymwybyddiaeth ynghylch atal cam drin rhwyiol plentyn, targedwyd yn benodol tuag at angen plant/gofalwyr gydag anabledd
CON 12-24 TAPE – Sounds Like Fun	TAPE	Sounds Like Fun clwb celf a chyfryngau bore Sadwrn i bobl ifanc 8-18 oed
CON 12-27 Cynllun Cefnogi Cyn-Ysgol Conwy	CPSS	Bydd cynllun cyfeirio a chefnogi Conwy yn darparu cefnogaeth i blant gydag anghenion ychwanegol a chael lle cyn ysgol.

<p>CON 12-30 Gwella mynediad at chwarae a hamdden i blant ag anableddau</p>	<p>Tîm CWD, CBSC</p>	<p>Galluogi plant ag anableddau yng Nghonwy i gyflawni eu potensial trwy eu galluogi i archwilio eu galluoedd a darganfod beth allant ei wneud yn hytrach na chael eu diffinio gan eu hanableddau. Mae'r prosiect hefyd yn edrych ar annog a chefnogi mynediad at weithgareddau prif ffrwd ac yn anelu i gefnogi teuluoedd trwy ddarparu cyfleoedd seibiant.</p>
---	----------------------	--